



## Ysgol Pentreuchaf

### 10. Polisi Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu

#### Nod

Sicrhau fod pob athro/athrawes yn derbyn y 10% o amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu y mae ganddynt yr hawl iddo.

#### Canllawiau

1. Gall y pennaeth benderfynnu fod yn rhaid i athrawon dreulio'r cyfnod CPA ar safle'r ysgol neu gall gytuno iddynt weithio gartref os mai dyna yw eu dymuniad.
2. Yn ôl Arweiniad Awdurdodau Addysg Cymru, pan fydd athro/athrawes yn mynychu cwrs yr un diwrnod a'i chyfnod CPA, nid oes rhaid cynnig CPA ychwanegol. Fodd bynnag, byddwn yn edrych ar bob sefyllfa fel mae'n codi, a gweld beth sy'n bosibl.
3. Mae amser CPA o dan reolaeth yr athro/athrawes perthnasol. Gellir cytuno ar gyfarfodydd cyd-gynllunio a safoni gwaith a.y.y.b. ond bydd hyn drwy gonsensws a dymuniad yr athrawon.
4. Mae'n bosibl defnyddio uwch gymhorthydd i sicrhau amser CPA.
5. Mae'r AALL yn unodi 70% o amser cyswllt dosbarth i benaethiaid gan eu bod yn derbyn 20% o amser di-gyswllt 'Arwain a Rheoli' a 10% amser CPA. Golyga hyn y dylai bob pennaeth gael diwrnod a hanner di-gyswllt yn wythnosol, ond anaml iawn y bydd cyllideb ysgol yn caniatâu hyn.
6. Os yw athro/athrawes yn absennol o'r ysgol oherwydd hyfforddiant, apwyntiadau neu salwch yn ystod diwrnod CPA, ni fydd disgwyl i'r ysgol drefnu cyfnod arall yr wythnos honno.
7. Os yw athro/athrawes yn gwneud trefniadau byr dymor i newid amserlen CPA, rhaid hysbysu'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth.
8. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i newid dyddiau CPA yn flynyddol i geisio sicrhau cydbwysedd bore/prynhawn gan gymryd i ystyriaeth hefyd tueddiadau i ysgol fod ar gau ar rhai dyddiau (e.e. Llun y banc a HMS ar ddydd Gwener).
9. Ar gais y Pennaeth, mae disgwyl i athrawon gyfarfod gyda'r Pennaeth yn achlysurol i drafod materion penodol.

#### Casgliad

Trwy ddefnyddio effeithiol o'r amser CPA, bydd athrawon yn medru cynllunio, paratoi ac asesu'n fwy effeithiol, fydd yn arwain at well safonau yn yr ysgol. Bydd hyn hefyd yn arwain at well cydbwysedd bywyd a gwaith i'r athrawon.

**Adolygir: Ionawr 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**